# ADRODDIAD BLYNYDDOL – 2013/14

**Y Cynghorydd:** Angela Ann Russell **Grŵp:** Annibynnol

**Ward:** Llanbedrog

**Bwriad yr adroddiad blynyddol:**
Pwrpas yr Adroddiad Blynyddol yw cynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn.

**Rôl a chyfrifoldebau:**
Rwy'n is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau, yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Trwyddedu a'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion.

**Gweithgareddau etholaethol:**
Fel aelod etholedig, rwy'n sicrhau fy mod yn cynrychioli fy ward, pobl Llanbedrog a Phenrhos ym mhob cyfarfod yr wyf yn ei fynychu, ac yn gwneud fy ngorau i weithio'n galed er lles ein cymuned.

Rwy'n falch iawn o'r gwaith sydd wedi'i wneud ar ein llwybrau troed, sy'n cynnwys Trwy'r Nant, Penygraig a'r llwybr i'r Dyn Haearn, ac edrychaf ymlaen i weld y gwaith yn cael ei gwblhau ar lwybr Cefn Llanfair.

Mae'r taflenni sydd wedi'u cynhyrchu gan Gyngor Cymuned Llanbedrog wedi bod yn llwyddiannus iawn ac mae'r potiau blodau wedi'u croesawu'n fawr yn y pentref.

Roedd agor neuadd y pentref i arddangos hen luniau yn llwyddiant ysgubol a daeth llawer o bobl i ffair yr Eglwys.

Gweithiais gyda'r Cylch Meithrin ac Ysgol Llanbedrog i greu posteri ynglŷn â baw cŵn ac rwy'n ddiolchgar i'r plant am eu dosbarthu nhw o amgylch y pentref.

**Mentrau a gweithgareddau eraill:**
Rwy'n dal i frwydro ar eich rhan i gael llwybr beics o Bwllheli i Abersoch a byddaf yn rhoi gwybod i chi am unrhyw ddiweddariadau.

**Bu i mi fynychu'r Pwyllgorau isod:**

| PWYLLGOR | YN BRESEN NOL |
|---|---|
| Y Cyngor | 4 |
| Pwyllgor Craffu Cymunedau | 6 |
| Pwyllgor Archwilio | 4 |
| Pwyllgor Trwyddedu Canolog/Cyffredinol | 4 |
| Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog | 1 |
| Is-bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | 3 |
| Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion | 8 |
| Pwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn | 1 |
| Cyfarfod Paratoi'r Pwyllgor Craffu Cymunedau | 4 |
| Pwyllgor Ardal Dwyfor | 4 |

Canran Presenoldeb: 95%

**Bu i mi gymryd rhan yn y cyfarfodydd, seminarau, ymchwiliadau a gweithdai ychwanegol isod:**

Fforwm Craffu
Gweithdai ar gasgliadau gwastraff

**Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd ar y cyrff allanol isod:**
Ysgol Gynradd Llanbedrog (Llywodraethwr)
Ysgol Uwchradd Botwnnog (Llywodraethwr)
Cyngor Cymuned Llanbedrog (Cadeirydd)
Cymdeithas y Pwyliaid ym Mhenrhos (Aelod)

**Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd yn y cyfarfodydd isod:**

Cynhadledd yn AHNE Penrith
Digwyddiadau Craffu'r WLGA

| | |
|---|---|
| Grŵp Rheilffordd yr Arfordir (Aelod) | |

**Bu i mi fynychu'r sesiynau hyfforddiant Dysgu a Datblygu isod:**

| | |
|---|---|
| **Corfforaethol** | |
| Data Perfformiad yr Awdurdod ac Ysgolion | |
| Llywodraethwyr Ysgolion ac Amddiffyn Plant | |
| Polisi Gosod Tai a Chyfrifoldebau Statudol | |
| Materion Priodoldeb ac Apeliadau Cynllunio | |
| Strwythur a chyflwr economi Gwynedd | |
| Panel Rhiant Corfforaethol | |
| Anghenion Addysgol Arbennig | |
| | |
| **Ychwanegol** | |
| Sgiliau Cadeirio Effeithiol (WLGA) | |
| Cyfathrebu (sgiliau dylanwadu/trafod) | |
| Sgiliau Cymhelliant | |
| Cyflwyniadau effeithiol | |
| Ymdrin â'r Wasg | |

Cyfanswm nifer o oriau: 42.5